Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl302

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Dolen Teifi – Cyllid Tracwyr Asedau**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Derbyniwyd cais am gyllid gan Dolen Teifi i brynu tracwyr asedau ar gyfer fflyd o feiciau trydanol a fydd ar gael i oedolion ifanc sy’n cyflawni troseddau lefel isel yn ardal Llanelli. Mae Dolen Teifi yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu dull wedi’i deilwra o weithio gydag oedolion ifanc gyda’r nod o’u dargyfeirio o’r system cyfiawnder troseddol.

Bydd y tracwyr asedau yn cael eu defnyddio i fonitro lleoliad y beiciau trydanol os na fydd y beic yn dychwelyd a/neu ddefnydd priodol o'r beic. Bydd hyn yn lliniaru'r risg o ddwyn neu weithgaredd anghyfreithlon arall wrth ddefnyddio'r beiciau.

Mae'r fenter hon yn cyd-fynd â Chynllun yr Heddlu a Throseddu o ran cefnogi pobl ifanc a'u dargyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol trwy gynnig atebion cludiant cost isel iddynt gael mynediad i addysg a/neu gyflogaeth.

Mae'r cynllun hefyd yn cyd-fynd â nod y Comisiynwyr i leihau ôl troed carbon a chefnogi gweithgarwch newid hinsawdd ar draws y rhanbarth.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cymeradwyo’r cais am gyllid, gyda chyfraniad i’w wneud o’r arian wrth gefn ar gyfer Ailhyfforddi Gyrwyr.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 29/06/23**